



Criw Celf
Gorllewin a Chanolbarth Cymru
@



Prosiect gan Gyngor Celfyddydau Cymru yw Criw Celf sydd yn dod â myfyrwyr mwy galluog a thalentog at ei gilydd yn y celfyddydau gweledol - gyda myfyrwyr yn amrywio o 9-18 oed. Mae'n rhan o fenter genedlaethol i feithrin talent artistig ifanc yng Nghymru. Wrth weithio'n agos gydag ysgolion, mae Criw Celf yn ceisio datblygu ymarfer creadigol disgybl a'i wybodaeth am gelfyddydau Gweledol a Chymhwysol drwy gyfres o Ddosbarthiadau Meistr.

Caiff y Dosbarthiadau Meistr hyn eu harwain gan artistiaid a dylunwyr proffesiynol, ac maent yn cynnig ymchwiliad ehangach o ymarfer yn y celfyddydau gweledol - yn ogystal â rhoi cipolwg ar bosibiliadau i'r dyfodol o ran cyrsiau creadigol ac academaidd. Bydd y canlyniadau wedyn yn cael eu harddangos mewn arddangosfa ar ddiwedd y prosiect, sy'n dathlu'r portffolio o waith a gafodd ei greu yn ystod y cwrs. Bydd gwahoddiadau hefyd i ymweld ag arddangosfeydd ymhellach i ffwrdd, yn ogystal â stiwdios artistiaid, sgyrsiau ac adrannau celfyddyd gain prifysgolion.

Mae Criw Celf yn brosiect cenedlaethol sy'n cael ei gydlynw mewn gwahanol ranbarthau ar draws Cymru. Dau o'r rhain yw Criw Celf y Gorllewin, a Chriw Celf y Canolbarth sy'n cyflwyno'r rhaglen ar draws rhanbarthau gorllewin Cymru a chanolbarth Cymru. O fewn y rhanbarthau hyn mae galerïau a sefydliadau diwylliannol, sy'n gweithio gyda'u rhwydwaith o bartneriaid nhw eu hunain i wireddu'r prosiect. Mae Criw Celf wedi ei lunio o wahanol adrannau ar gyfer pob grŵp oedran: Criw Celf Cynradd (blynyddoedd ysgol 5-6), Criw Celf Uwchradd (blynyddoedd ysgol 7-9), Portffolio (myfyrwys sy'n astudio TGAU) a Chodi'r Bar (myfyrwyr sy'n astudio lefel UG/Safon Uwch ac AB).



2017/18

Bydd Ysgol Gelf Caerfyrddin yn cyflwyno **Portffolio** a **Chodi'r Bar** ar draws ardal Sir Gaerfyrddin o Fedi 2017 ymlaen.



Anelir **Portffolio** at ddysgwyr ym mlynyddoedd ysgol 10 & 11 (TGAU)

Fel rhan o Portffolio gwahoddir y dysgwyr i:

- Fynychu 5 Dosbarth Meistr @ Ysgol Gelf Caerfyrddin Campws Heol Ffynnon Job yn cynnwys (Lluniadu/Peintio, Printio Traddodiadol, Ffotograffiaeth, Cerflunio Metel 3D, Digidol/Graffeg)
- Gymryd rhan mewn ymweliad addysgol
- Arddangos gwaith mewn arddangosfa gyhoeddus ddiwedd y flwyddyn



Anelir **Codi'r Bar** at ddysgwyr ym mlynyddoedd ysgol 12 & 13 (Lefel UG a Safon Uwch)

Fel rhan o Godi'r Bar gwahoddir y dysgwyr i:

- Fynychu 5 Dosbarth Meistr @ Ysgol Gelf Caerfyrddin Campws Heol Ffynnon Job (Lluniadu, Peintio, Gemwaith, Cerameg, Print a Phatrwm Arwyneb)
- Gymryd rhan mewn ymweliad addysgol
- Arddangos gwaith mewn arddangosfa gyhoeddus ddiwedd y flwyddyn

Bydd gwybodaeth am y prosiectau a broses ymgeisio ar gyfer derbyniad 2017/18 yn cael ei dosbarthu yn yr wythnos sy'n dechrau 4^{ydd} Medi 2017

Am wybodaeth bellach yn cynnwys y broses ymgeisio/recriwtio cysylltwch â:

Saron Jones-Hughes (Darlithydd a Chydlynnydd Prosiect mewn Celf a Dylunio)
Saron.Jones-Hughes@colegsirgar.ac.uk

Nodwch: Mae manylion gweithdai Portffolio a Codi'r Bar yn dal yn cael ei cwblhau a gall fod yn destun I newid